

PRIFYSGOL CAERDYDD

CYNLLUN TEITHIO



Fersiwn: 3

Dyddiad: Mehefin 2014

Llofnod: 

Llofnodwyd gan: Yr Athro Elizabeth Treasure
Rhag Is-Ganghellor

DATGANIAD O GEFNOGAETH GAN YR UWCH REOLWYR

Fel un o sefydliadau mwyaf Cymru, credwn y dylai cynaliadwyedd, yn hytrach na gwneud y lleiafswm er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau, fod yn rhan annatod o werthoedd y Brifysgol, gan ei ymgorffori yn ein gweithrediadau a rhoi lle canolog iddo yn ein gwaith ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allanol.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn i gynaliadwyedd, mae uwch reolwyr y Brifysgol yn awyddus i leihau ein heffaith ar amgylcheddau lleol a byd-eang. Mae teithio cynaliadwy wedi ei nodi fel un maes allweddol lle gallwn weithio gyda'n gilydd i leihau'r effaith hon, cyfrannu tuag at les y bobl yn y tymor hir, a chefnogi Cymru i sicrhau dyfodol carbon isel.

Nod y Cynllun Teithio hwn yw annog teithio cynaliadwy gan staff a myfyrwyr fel ei fod yn dod yn reddf naturiol er mwyn lleihau traffig a gynhyrchir gan y Brifysgol. Byddwn yn hyrwyddo teithio byw fel cerdded a beicio, ac yn cefnogi arferion gweithio amgen sy'n lleihau teithio diangen.

Gan gydnabod ein sefyllfa yn y gymuned ehangach, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Sefydliadau Addysg Uwch/Addysg Bellach eraill, Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Llywodraeth Cymru i leihau'r angen i deithio, ac i annog dewisiadau mwy cynaliadwy.

Mae'r Cynllun Teithio hwn yn rhan o broses tymor hir a fydd yn annog ein staff a'n myfyrwyr, ac ein hymwelwyr, i feddwl am sut maen nhw'n teithio yn ôl ac ymlaen i ystâd y Brifysgol ac o'i mewn, a sut maen nhw'n ymgymryd â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Bydd cyflawniad mewn cymhariaeth â thargedau yn cael ei fonitro gan Grŵp Llywio Systemau Rheoli Amgylcheddol (EMS) y Brifysgol a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol er mwyn sicrhau ein bod ni'n bodloni amcanion y Brifysgol a'r nodau o sicrhau bod Cymru'n dod yn genedl carbon isel a chynaliadwy.



Yr Athro Elizabeth Treasure
Rhag Is-Ganghellor

CYNNWYS
TUDALEN

1.	CYFLWYNIAD	4 - 5
1.1	Cynlluniau teithio	4
1.2	Cwmpas y Cynllun Teithio	4
1.3	Gweithredu'r Cynllun Teithio	4
1.4	Manteision y Cynllun Teithio	4
1.5	Nod ac amcanion y Cynllun Teithio	4 - 5
2.	CYD-DESTUN	5
- 11		
2.1	Math o sefydliad/diwylliant Prifysgol Caerdydd	5
2.2	Gwybodaeth gyffredinol am y Brifysgol	5
- 7		
2.3	Teithio i safleoedd	7
- 10		
2.4	Dewisiadau amgen i deithio	
10 - 11		
3.	CYFLAWNIADAU ARWYDDOCAOL	
11 - 12		
4.	TARGEDAU AC AMCANION	12 - 13
5.	GWEITHREDU	13
5.1	Rolau a Chyfrifoldebau	13
5.2	Sut bydd y cynllun teithio yn cael ei gyfleu i staff a myfyrwyr	13
6.	MONITRO	13
6.1	Gweithio gyda Chyngor Caerdydd a chyrrff perthnasol eraill	13

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynlluniau teithio

Mae Prifysgol Caerdydd yn gwerthfawrogi mai Cynlluniau Teithio yw'r ffordd ymlaen a argymhellir gan y Llywodraeth i gyflogwyr ehangu dewisiadau teithio, hyrwyddo dewisiadau teithio mwy cynaliadwy, lleihau'r ddibyniaeth ar geir ac unigolion yn teithio mewn ceir ar eu pen eu hunain a lleihau effaith andwyol ar yr amgylchedd.

Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod ei chyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol o ran lleihau effaith gweithrediadau'r Brifysgol ar yr amgylchedd. Mae'r Cynllun Teithio wedi cael ei ddatblygu a'i fwriad yw dogfennu proses ddeinamig, gan esblygu a newid dros amser i adlewyrchu sefydliad a strwythur Prifysgol Caerdydd, proffiliau staff a myfyrwyr ac ein hadeiladau a'n safleoedd amrywiol. Mae cynhyrchu Cynllun Teithio Prifysgol Caerdydd, gweithio o'i fewn a'i adolygu yn cynnig cyfle delfrydol i werthuso ac ailystyried arferion teithio presennol. Drwy'r Cynllun Teithio, rydym yn gobeithio y gallwn annog llawer o staff a myfyrwyr i wneud addasiadau a newidiadau bach i'w dewisiadau teithio, a thrwy gyfuno pob un ohonyn nhw bydd yn helpu i gyflawni ein nodau a'n hamcanion yn y maes hwn.

1.2 Cwmpas y Cynllun Teithio

Mae Cynllun Teithio Prifysgol Caerdydd yn cwmpasu'r elfennau a ganlyn sy'n gysylltiedig â gweithrediadau'r Brifysgol:

- Cymudo (teithio i'r gwaith/i astudio),
- Teithio ar fusnes,
- Cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol,
- Arferion gweithio/dewisiadau amgen i deithio.

1.3 Gweithredu'r Cynllun Teithio

Mae Prifysgol Caerdydd wedi gweithredu cynllun teithio er mwyn:

- Dangos ein hymrwymiad i gynllunio teithio ac i annog a hyrwyddo defnyddio trafndiaeth a theithio cynaliadwy;
- Gwella cyfleoedd i deithio gan ddefnyddio dulliau cynaliadwy ac annog defnyddio'r dulliau hynny, a lleihau teithio diangen;
- Lleihau ein hól troed carbon;

ac mae'n bwriadu parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Teithio ymysg staff a myfyrwyr.

1.4 Manteision y Cynllun Teithio

Dyma rai o fanteision cael Cynllun Teithio ym Mhrifysgol Caerdydd:

- Gwelliannau i ansawdd bywyd staff o ran lleihau tagfeydd teithio a straen o ganlyniad i hynny, yn ogystal â gwell iechyd a chymhelliant;
- Dangos ein hymrwymiad amgylcheddol i wella ansawdd aer lleol a lleihau llygryddion bydeang, yn ogystal â lleihau ein Hól Troed Carbon;
- Arbedion cost yn gysylltiedig â llai o gostau yn gysylltiedig â thrafnidiaeth;
- Arbedion o ran cost ac amser i staff drwy leihau nifer eu teithiau mewn ceir;
- Gwell cysylltiadau cymunedol o ganlyniad i ddangos ein hymrwymiad i leihau tagfeydd;
- Llai o alw posibl am fannau parcio ceir yn y Brifysgol.

1.5 Nod ac amcanion y Cynllun Teithio

Nod cyffredinol Cynllun Teithio Prifysgol Caerdydd yw helpu i leihau Ôl Troed Carbon y Brifysgol ac annog teithio mwy cynaliadwy, gan annog pobl i beidio â theithio mewn ffyrdd llai cynaliadwy.

Yr amcanion lefel uwch yw:

- codi ymwybyddiaeth staff a myfyrwyr o effeithiau dewis teithio a'r dewisiadau teithio amgen,
- annog teithio egniol (e.e. cerdded a beicio),
- annog y defnydd o gludiant cyhoeddus,
- lleihau teithiau ar eu pen eu hunain gan unigolion mewn cerbydau,
- datblygu a hyrwyddo arferion busnes a gweithio amgen sy'n lleihau teithio,
- lle bo'n ymarferol, annog defnyddio dewisiadau eraill o ran trafndiaeth yn yr awyr ac mewn ceir ar gyfer teithiau busnes yn y Deyrnas Unedig,
- adolygu'n feirniadol y cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol Caerdydd er mwyn nodi cyfleoedd i leihau ein hól troed carbon,
- adolygu a datblygu Cynllun Teithio Prifysgol Caerdydd.

2. CYD-DESTUN

2.1 Math o sefydliad/diwylliant Prifysgol Caerdydd

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i wneud gwelliannau amgylcheddol ac i leihau'r effaith rydyn ni'n ei chael ar yr amgylchedd. Mae Cynllun Teithio yn cyd-fynd â'n dyhead i hyrwyddo cynaliadwyedd, rhwyddineb mynediad a ffyrdd iach o fyw i'n staff a'n myfyrwyr.

Mae Prifysgol Caerdydd yn dilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth reoli gweithrediadau mewnol ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol. Mae'r Brifysgol hefyd yn ceisio creu newid er gwell drwy raglen ymchwil, dysgu ac addysgu gyda'r gorau yn y byd, sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion cynaliadwyedd. Ceir manylion am ymrwymiad y Brifysgol i ddatblygu cynaliadwy yn www.cardiff.ac.uk/sustainability

Nodwyd teithio cynaliadwy fel mater allweddol yn y Brifysgol ac fel rhan o'i hagenda cynaliadwyedd; mae'r Brifysgol wedi cydnabod yr angen i fynd i'r afael ag effeithiau teithiau staff a myfyrwyr. Mae'r Cynllun Teithio yn rhan o broses tymor hir i annog staff a myfyrwyr i feddwl am sut maen nhw'n teithio i ystâd y Brifysgol ac o'i mewn.

Mae Prifysgol Caerdydd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd yr agenda datblygu cynaliadwy yng Nghymru a'r rôl y gall y Brifysgol ei chwarae fel partner i Lywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd.

2.2 Gwybodaeth gyffredinol am y Brifysgol

Prifysgol Caerdydd

Mae cymuned Prifysgol Caerdydd yn cynnwys staff a myfyrwyr. Mae cymuned y Brifysgol yn gyfanswm o tua 34,000 o bobl gyda bron i 6,000 o staff a thros 28,000 o fyfyrwyr. Mae'r wythnos waith arferol yn cwmpasu dydd Llun i ddydd Gwener o 8am tan 6pm. Fodd bynnag, mae nifer o achosion o batrymau gwaith y tu allan i oriau ar draws y Brifysgol. Mae staff a myfyrwyr yn teithio i'r Brifysgol drwy amrywiaeth o ddulliau: cerdded, beic, beic modur, bws, trê'n a char.

Mae Prifysgol Caerdydd ar ddau brif gampws: Campws Parc Cathays yng nghanol dinas Caerdydd; a Champws Parc y Mynydd Bychan yn ardal y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd (sy'n cael ei rannu gydag Ysbyty Athrofaol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro). Mae ystâd y Brifysgol, ar y ddau brif gampws, yn fawr ac yn cynnwys nifer o adeiladau ar gyfer ysgolion academiaidd a'r rhai ar gyfer swyddogaethau gweinyddol/cymorth, ynghyd â phreswylfeydd myfyrwyr a chyfleusterau chwaraeon.

Ceir gwybodaeth am leoliad Prifysgol Caerdydd a mapiau yn www.cardiff.ac.uk/locations/index Mae pellteroedd teithio uchaf o 15 i 20 munud ar droed rhwng y rhan fwyaf o adeiladau ar bob campws. Byddai teithio rhwng Campws Parc Cathays a Champws Parc y Mynydd Bychan a rhwng rhai neuaddau preswyl a'r ddau gampws y tu allan i'r patrwm cyffredinol hwn.

Parcio ar y Campws

Mae Prifysgol Caerdydd yn annog myfyrwyr i beidio â dod â char i'r brifysgol. O ran neuaddau preswyl y Brifysgol, mae'r tudalennau gwe 'Byw mewn Preswylfeydd' yn cynghori nad oes manau parcio ar gael mewn rhai preswylfeydd (neu o fewn radiws tair milltir) ac mai parcio cyfyngedig sydd ar gael, gyda thwyddedau mewn rhai preswylfeydd eraill.

Mae gan Brifysgol Caerdydd 1,200 o fannau parcio ceir, wedi eu gwasgaru ar draws Campws Parc Cathays a thua 2,650 o fannau parcio beiciau ar draws Campws Parc Cathays (900), Campws Parc y Mynydd Bychan (300) a phreswylfeydd y Brifysgol (1,450).


Fflyd cerbydau

Mae gan Brifysgol Caerdydd tua 64 o gerbydau yn ei pherchnogaeth/ar brydles o wahanol oedrannau, mathau injan, modelau a maint. Mae'r cerbydau hyn yn cael eu defnyddio i gyflawni amrywiaeth o dasgau o gwmpas y ddau gampws a phreswylfeydd y Brifysgol, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw ystadau, casglu a dosbarthu'r post, codi a chario a phorthora, diogelwch, trafnidiaeth i aelodau allweddol/uwch o staff y brifysgol ac yn achlysurol i gludo myfyrwyr.

Arolwg teithio


Bydd Prifysgol Caerdydd yn ymgymryd ag Arolygon Teithio o bryd i'w gilydd ymysg staff a myfyrwyr cymuned y Brifysgol. Cynhaliwyd yr Arolwg Teithio diweddaraf yn ystod sesiwn academiaidd 2012/13 ac mae rhai o'r pwyntiau allweddol ynghylch yr arolwg hwnnw wedi eu cynnwys isod. Mae Arolwg Teithio arall wedi ei gynllunio ar gyfer sesiwn 2016/17.

- Fe wnaeth cyfanswm o 4,082 o staff a myfyrwyr gwblhau'r Arolwg Teithio, gyda 1,619 (39.7%) o'r ymatebion gan staff a 2,463 (60.3%) o'r ymatebion gan fyfyrwyr
- O'r 2,463 (60.3%) o ymatebion gan fyfyrwyr, daeth 1,867 (45.7%) gan israddedigion a 596 (14.6%) gan ôl-raddedigion.
- O ran y dull teithio mae staff a myfyrwyr yn ei ddefnyddio i gyrraedd y Brifysgol, mae'r canlyniadau'n dangos bod llawer yn y ddau grŵp wedi ymrwmo i deithio byw yn barod. Fel y byddai disgwyl, mae myfyrwyr yn teithio'n gynaliadwy yn barod (mae 74% o fyfyrwyr yn teithio'n heini drwy gerdded a beicio ac mae 11.8% yn defnyddio cludiant cyhoeddus).



- Yr ymateb uchaf ymhlith staff oedd cludiant mewn modur preifat (57.1% o staff yn defnyddio'r dull hwn ar gyfer rhan o'u taith i'r gwaith, o leiaf) gan dynnu sylw at y ffaith y dylai lleihau hyn

fod yn amcan allweddol naill ai i annog teithio byw, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu liffitiau/rhannu ceir lle bo'n ymarferol.



- Ymysg y mentrau wedi eu categorio'n bwysig o ran annog staff a myfyrwyr i ystyried dewisiadau eraill yn lle teithio mewn car roedd:
 - Gwella goleuadau/diogelwch ar y ffordd,
 - Cyfleusterau loceri/storio,
 - Gwella cyfleusterau newid a chawodydd,
 - Disgownt ar offer/dillad teithio byw,
 - Gwella cyfleusterau parcio beiciau,
 - Gwella lonydd beicio,
 - Hyfforddiant hyder beicio di-dâl,
 - Gwella gwybodaeth,
 - Cynllun llogi beiciau blynyddol,
 - Cynllun aberthu cyflog/benthyca ar gyfer tocynnau teithio i staff,
 - Cardiau teithio/tocynnau tymor am bris gostyngol,
 - Rhagor o lwybrau cludiant cyhoeddus uniongyrchol,
 - Cynyddu amllder/dibynadwyedd gwasanaethau cludiant cyhoeddus,
 - Safon uwch o fysiau/trenau a chyfleusterau cysylltiedig (arosfannau/gorsafodded bysiau),
 - Gwella diogelwch wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus,

Mae rhai o'r mentrau hyn yn uniongyrchol dan reolaeth y Brifysgol tra byddai eraill yn golygu y byddai'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill.

2.3 Teithio i safleoedd

Mae Prifysgol Caerdydd ar ddau brif gampws, sef Campws Parc Cathays yng nghanol dinas Caerdydd a Champws Parc y Mynydd Bychan yn ardal y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd. Mae yna amrywiaeth o gysylltiadau trafnidiaeth yn gwasanaethu'r campysau hyn.

Gwybodaeth am Deithio a'i Hyrwyddo

Darperir gwybodaeth am ddewisiadau teithio amgen i staff a myfyrwyr drwy'r adran Teithio Cynaliadwy ar wefan y Brifysgol

<http://www.cardiff.ac.uk/sustainability/sustainableuniversity/sustainabletravel/index.html>

Gellir dod o hyd i wybodaeth am gynllunio teithio personol yn www.traveline-cymru.info/ Traveline Cymru yw'r gwasanaeth gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus i Gymru, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n cynnig "siop-un-stop" ar gyfer gwybodaeth am deithio yng Nghymru sy'n cynnwys bysiau, bysiau moethus, trenau, hediadau, a llongau teithwyr. Gall y gwasanaeth hefyd helpu os bydd rhywun eisiau defnyddio car, cerdded neu feicio am ran o'r daith neu'r daith gyfan. Mae Traveline Cymru yn gwneud hyn drwy ddarparu gwybodaeth ddiudedd a chydgyssylltiedig i'r cyhoedd sy'n teithio am amserlenni fel y'u cyhoeddwyd gan weithredwyr bysiau, trenau a bysiau moethus.

Mynediad i gerddwyr/cerdded

At ei gilydd, mae adeiladau'r Brifysgol ar Gampws Parc Cathays o fewn 15 munud o daith ar droed i ganol dinas Caerdydd. Fel y nodwyd eisoes, mae pellteroedd teithio uchaf o rhwng 15 a 20 munud ar droed rhwng y rhan fwyaf o adeiladau ar bob campws. Byddai teithio rhwng Campws Parc Cathays a Champws Parc y Mynydd Bychan a rhwng rhai neuaddau preswyl a'r ddau campws y tu allan i'r patrwm cyffredinol hwn.

Mae 'Walk-Budi' yn rhan o gynllun rhannu lifftiau Prifysgol Caerdydd sy'n darparu system ar-lein i ddefnyddwyr sydd wedi cofrestru ddod o hyd i bartneriaid i rannu teithiau cerdded. Mae'r system hon ar gael yn rhad ac am ddim i'r holl staff a'r myfyrwyr.

Mae mapiau cerdded o gwmpas y campws wedi cael eu datblygu i arwain staff a myfyrwyr ar lwybrau cerdded a awgrymir o amgylch y campws, ac mae'r rhain ar gael yn

<http://www.cardiff.ac.uk/sustainability/sustainableuniversity/sustainabletravel/walking/walkingmaps/walking-maps.html>

Beicio

Mae gan Gaerdydd rwydwaith beicio sy'n tyfu, ac mae Llwybr Taf yn cynnig mynediad oddi ar y ffordd i raddau helaeth at ganol y ddinas o sawl ardal yng Nghaerdydd (e.e. Grangetown, Pontcanna ac Ystum Taf). Darperir manau storio beiciau yn agos at lawer o adeiladau'r Brifysgol. Ceir gwybodaeth am leoliad a mathau'r manau storio yn <http://www.cardiff.ac.uk/sustainability/sustainableuniversity/sustainabletravel/cycling/bicycleparking/cycle-parking.html>

Mae Prifysgol Caerdydd yn talu lwfans ar gyfer milltiroedd busnes i staff sy'n beicio a hefyd yn darparu cynllun aberthu cyflog i staff brynu beiciau newydd.

Mae 'Cycle-Budi' yn rhan o Gynllun rhannu lifftiau Prifysgol Caerdydd sy'n darparu system ar-lein i ddefnyddwyr cofrestredig ddod o hyd i bartneriaid i rannu teithiau beicio. Mae'r system hon ar gael yn rhad ac am ddim i'r holl staff a'r myfyrwyr.

Mae Mapiau Beicio Caerdydd a Mapiau/Taflenni Gwybodaeth Llwybr Bae Caerdydd ar gael yn holl borthdai/derbynfeydd y Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn rhoi canllaw i lwybrau beicio o amgylch y ddinas at ddibenion cymudo a hamdden, ac maen nhw hefyd ar gael ar-lein yn <http://www.keepingcardiffmoving.co.uk/cycle/where-can-i-cycle>

Cysylltiadau Bws

A hithau mewn/yn agos at amgylchedd canol dinas, mae Prifysgol Caerdydd yn cael ei gwasanaethu'n dda gan wasanaethau bysiau lleol a chenedlaethol, a cheir manylion am y ddarpariaeth hon drwy adran Teithio Cynaliadwy gwefan y Brifysgol

<http://www.cardiff.ac.uk/sustainability/sustainableuniversity/sustainabletravel/index.html> Mae myfyrwyr ym mhreswylfeydd y Brifysgol hefyd yn cael manylion am y gwasanaethau bysiau lleol drwy gyswllt i wefan Bws Caerdydd o dudalennau gwe amrywiol y preswylfeydd e.e. www.cf.ac.uk/for/prospective/residences/undergraduate

Mae gan y Brifysgol wasanaeth bws sy'n gweithredu rhwng neuadd breswyl 'Neuadd y Brifysgol' a Champws Parc Cathays a Champws Parc y Mynydd Bychan sy'n darparu cludiant i fyfyrwyr

preswyl drwy gydol y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Darperir y gwasanaeth hwn fel rhan o becyn preswylfeydd Neuadd y Brifysgol, felly nid oes angen i fyfyrwyr dalu pan fyddan nhw'n defnyddio gwasanaeth bws y Brifysgol.

Mae Bws Caerdydd yn rhedeg gwasanaethau rheolaidd yn agos at Gampws Parc Cathays a Champws Parc y Mynydd Bychan y Brifysgol. Gellir dod o hyd i amserlenni ar

http://www.cardiffbus.com/welsh/servicelisting.shtml#_subnav01

Y bysiau sy'n gweithredu rhwng Campws Parc y Mynydd Bychan a chanol y ddinas yw rhifau 38 a 38A.

Mae Newport Bus yn cynnal gwasanaeth aml (X30) rhwng Gorsaf Fysiau Casnewydd a Gorsaf Fysiau Caerdydd, drwy Gampws Parc y Mynydd Bychan. Gellir gweld amserlen wythnosol yn

<http://www.newportbus.co.uk/sites/default/files/timetables/X30.pdf>

Cysylltiadau rheilffyrdd

Mae'r Brifysgol hefyd yn cael ei gwasanaethu'n dda gan reilffyrdd lleol a'r brif reilffordd, gyda gorsaf drenau leol yn Cathays, yng nghanol Campws Parc Cathays y Brifysgol. Mae'r campws hefyd o fewn pellter cerdded i orsafoedd Heol y Frenhines Caerdydd a Chaerdydd Canolog.

Gellir gwirio gwybodaeth am amserlenni trenau yn www.arrivatrainswales.co.uk Mae Trenau Arriva Cymru yn cynnig gwasanaeth tocyn tymor ar-lein sy'n galluogi staff a myfyrwyr i fynd ar ôl dyfynbrisiau ar-lein, archebu tocynnau ar-lein, trefnu i docynnau gael eu hanfon drwy'r post ac yn cynnig gwasanaeth newydd os bydd tocyn trên yn cael ei golli neu ei ddwyn. Os bydd yr un daith yn cael ei gwneud ar dri diwrnod neu ragor o fewn wythnos, mae tocyn tymor yn debygol o gynnig gwerth gwell am arian na thocynnau dyddiol.

Mae cardiau trenau ar gael hefyd gan gwmni Trenau Arriva Cymru sy'n cynnig arbedion sylweddol ar deithio ar drenau. Mae yna nifer o gardiau trenau gwahanol ar gael, gan gynnwys y cerdyn 16-25, y pobl anabl

a'r cerdyn i bobl hŷn. Ceir rhagor o wybodaeth yn

<http://www.arrivatrainswales.co.uk/CardenRheilffyrdd/?langtype=1106> a

<http://www.arrivatrainswales.co.uk/CardenRheilffyrddATW/?langtype=1106>.

Rhannu ceir/cynllun rhannu lifftiau

Mae Prifysgol Caerdydd wedi sefydlu partneriaeth â liftshare.com, darparwr rhannu ceir mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig, i gyflenwi cynllun rhannu ceir diogel, preifat i holl staff a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Mae'r cynllun rhannu lifftiau yn cynnwys 'Walk Budi' a 'Cycle Budi' sy'n darparu system ar-lein i ddefnyddwyr cofrestredig ddod o hyd i bartneriaid i rannu teithiau cerdded a beicio. Mae'r system hon ar gael yn rhad ac am ddim i'r holl staff a'r myfyrwyr.

Mae 350 o aelodau o blith y staff/myfyrwyr ar hyn o bryd. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y cynllun rhannu lifftiau, cofrestru, sefydlu cyfrif a chwilio am deithiau/parau posibl ar dudalennau gwe Prifysgol Caerdydd yn

<http://www.cardiff.ac.uk/secty/carparking/liftshare/cardiff-university-liftshare-scheme.html>

Parcio a Theithio

Mae gwasanaethau Bysiau Parcio a Theithio Caerdydd yn darparu modd o deithio i ganol dinas Caerdydd ac yn cynnwys arosfannau yng Nghampysau Parc Cathays a Pharc y Mynydd Bychan. Mae'r gwasanaethau Parcio a Theithio a ganlyn ar gael:

- Parcio a Theithio Dwyrain Caerdydd
 - Cyfnewidfa Pentwyn (M48/Cyffordd 30) i Blas Dumfries drwy Heol Casnewydd, gan aros ym Mhlas y Parc (Campws Parc Cathays). Ar gael saith diwrnod yr wythnos
 - Cyfnewidfa Pentwyn (M48/Cyffordd 30) i Gampws Parc y Mynydd Bychan. Gweithredir gan Newport Bus (Gwasanaeth PR1). Ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig.

- Parcio a Theithio Gorllewin Caerdydd
 - Stadiwm Dinas Caerdydd, Lecwydd i Canal Street (canol y ddinas) ar hyd Heol Lecwydd a Heol Penarth. Ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig.
- Parcio a Theithio De Caerdydd
 - Neuadd y Sir, Caerdydd i Canal Street (canol y ddinas). Ar gael ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn unig.

Ceir rhagor o wybodaeth yn

<https://www.cardiff.gov.uk/eng/resident/parking-Roads-and-Travel/Parking-in-Cardiff/Park-and-Ride/Pages/default.aspx>

Gyrru

Mae manau parcio cyhoeddus ar gael o gwmpas canol y ddinas ac ar Gampws Parc y Mynydd Bychan ar gyfraddau talu gwahanol. Yn ogystal mae gan Brifysgol Caerdydd 1,200 o fannau parcio i geir â thrwyddedau yn unig, wedi eu lledaenu ar draws Campws Parc Cathays.

2.4 Dewisiadau amgen i deithio

Mae yna lawer o arferion gwaith a all osgoi neu leihau'r angen am deithio, sydd ar gael ar hyn o bryd ym Mhrifysgol Caerdydd, gan gynnwys:

Mynediad o Bell at e-bost, ffeiliau ac adnoddau electronig

Mae Porth Caerdydd yn cynnig mynediad i staff a myfyrwyr (drwy broses fewngofnodi sengl) at eu ffeiliau personol, negeseuon e-bost ac adnoddau electronig ble bynnag maen nhw, ar y campws neu oddi arno, gan leihau'r angen i deithio yno eu hunain i gael mynediad at eu gwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am Borth Caerdydd yn <http://mwehelp.cf.ac.uk/portal/index.html>

Rhannu Dogfennau a Chydweithio

Mae Porth Caerdydd hefyd yn cynnig cydweithredu rhithwir ar gyfer staff, gan gynnwys rhannu dogfennau drwy'r gwasanaeth Quickr Teampace, gan ddarparu dewis arall cyfleus yn lle gorfod teithio. Mae yna hefyd wasanaeth trosglwyddo ffeiliau electronig mawr yn ddiogel sydd wedi ei anelu at staff a myfyrwyr ôl-raddedig, gan leihau'r angen i bostio neu deithio gyda ffeiliau mawr. Bydd hwn ar gael drwy'r cyfeiriad gwe fastfile.cardiff.ac.uk

Stiwdios fideo-gynadledda

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth (INSRV) yn darparu stiwdios fideo-gynadledda i'w defnyddio gan aeloda'r Brifysgol. Y mae hefyd yn bosibl defnyddio un neu ragor o fyrddau gwaith i gysylltu â fideo-gynadledda mewn stiwdio sy'n bodoli'n barod. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan INSRV yn <http://www.cardiff.ac.uk/insrv/graphicsandmedia/videoconference>

Fideo-gynadledda desg i ddesg/Skype

Mae INSRV yn cefnogi gwasanaeth Skype, a cheir rhagor o wybodaeth yn <http://www.cardiff.ac.uk/insrv/it/comms/skype> Y mae hefyd yn bosibl defnyddio cyfleusterau cynadledda fel MSN ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn anfodus, nid yw INSRV yn gallu darparu unrhyw gymorth o ran gosod, ffurfweddu na gweithredu'r gwasanaethau eraill hyn (ac fel gydag unrhyw ddefnydd o'r rhwydwaith, rhaid i'r defnydd o wasanaethau cyfarfod/trafod ar-lein gydymffurfio â rheoliadau a pholisïau cydymffurfio Corfforaethol TG y Brifysgol sydd i'w gweld yn www.caerdydd.ac.uk/govrn/cocom/uniitregs/).

Cynadledda dros y ffôn

Mae gwasanaethau cynadledda dros y ffôn ar gael i staff er mwyn cyfathrebu â chydweithwyr y tu mewn a thu allan i'r Brifysgol. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan INSRV yn <http://www.cardiff.ac.uk/insrv/it/comms/telephones/teleconference.html>

Negeseuon gwib ar-lein

'Lync' yw'r gwasanaeth negeseuon gwib ar-lein sydd ar gael i staff a myfyrwyr sy'n galluogi:

- Gwybodaeth am ymwybyddiaeth o bresenoldeb amser real gan gynnwys statws argaeledd a manylion lleoliad, er mwyn eich galluogi chi i gysylltu'n hawdd ac yn effeithlon,

- Creu a rheoli cyfarfodydd ar-lein gyda rhannu sgriniau, negeseuon gwib, galwadau llais a byrddau gwyn rhithwir,
 - Negeseuon grŵp neu un i un,
 - Mynediad ar eich cyfrifiadur, eich cyfrifiadur tabled neu ddyfais symudol.
- Ceir rhagor o wybodaeth ar <http://sites.cardiff.ac.uk/office365/lync-instant-messaging/>

Ap symudol Prifysgol Caerdydd

Mae App Symudol Prifysgol Caerdydd yn darparu mynediad at wasanaethau'r Brifysgol o bob math o ffôn symudol sy'n gallu cydweithio â'r app. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys 'Holi Llyfrgellydd yn Fyw', 'Dod o hyd i Gyfrifiadur' (sy'n dod o hyd i'r cyfrifiadur mynediad agored agosaf sydd ar gael, gan leihau'r angen i deithio pellteroedd hirach) a mynediad o bell at e-bost, gwasanaethau llyfrgell a chysylltiadau, gan unwaith eto ei gwneud yn haws i gael cymorth a mynediad at eich gwaith heb orfod teithio. Ceir rhagor o wybodaeth yn www.caerdydd.ac.uk/mobile

Dysgu Canolog

Mae Dysgu Canolog yn galluogi cyflwyno traethodau ar-lein, gan leihau'r angen i deithio ac argraffu. Gellir cynnal profion ffurfiannol hefyd drwy ddefnyddio Dysgu Canolog, sy'n golygu nad oes angen i fyfyrwyr fod ar y campws i wneud y profion hyn. Y mae hefyd yn bosibl i fyfyrwyr drafod eu gwaith naill ai'n fyw neu'n anghydamseredig o'u preswylfeydd gan ddefnyddio offer cydweithio Dysgu Canolog, gan leihau'r angen i deithio eto. Yn olaf, mae App Symudol Dysgu Canolog yn galluogi mynediad at Learning Central o unrhyw le, heb orfod teithio at gyfrifiadur bwrdd gwaith, darlithfa neu lyfrgell. Ceir rhagor o wybodaeth yn <https://learningcentral.cf.ac.uk>

Gwasanaethau ar gyfer dysgwyr o bell

Mae amrywiaeth o wasanaethau Llyfrgell ar gael i ddysgwyr o bell, gan leihau'r angen iddyn nhw deithio i'r Brifysgol ac yn ôl. Ceir rhagor o fanylion yn <http://www.cardiff.ac.uk/insrv/libraries/distance>

'Holi Llyfrgellydd yn Fyw'

Mae 'Holi Llyfrgellydd yn Fyw' yn wasanaeth negeseuon gwib sy'n cysylltu defnyddwyr y llyfrgell ag aelod o staff yn un o lyfrgelloedd safle'r Brifysgol. Mae defnyddwyr yn cael ateb cyflym i'w cwestiynau o'u cartref neu eu swyddfa eu hunain, heb orfod teithio'n gorfforol i un o lyfrgelloedd y Brifysgol, gan arbed carbon ac amser teithio. Mae'r gwasanaeth ar gael yn <http://www.cardiff.ac.uk/insrv/libraries>

3. CYFLAWNIADAU ARWYDDOCAOL

Mae'r llwyddiannau a ganlyn wedi cael eu cydnabod ers lansio Cynllun Teithio Prifysgol Caerdydd ym mis Mai 2010:

- Cyfradd ymateb uchel i Arolwg Teithio Staff a Myfyrwyr 2012/13,
- Ymatebion yr arolwg wedi cael eu dadansoddi a'u cyflwyno i'r Brifysgol gan fyfyrwyr Ysgol Cynllunio a Daeryddiaeth Caerdydd,
- Adolygu, datblygu a lansio gwell gwybodaeth am deithio ar wefan Prifysgol Caerdydd <http://www.cardiff.ac.uk/sustainability/sustainableuniversity/sustainabletravel/index.html>,
- Mannau parcio beiciau ychwanegol wedi cael eu gosod yn:
 - Adeilad Cochrane (Campws Parc y Mynydd Bychan),
 - Adeilad y Dyniaethau (Campws Parc Cathays),
 - Ffordd Senghennydd (Maes parcio gorsaf drenau Cathays),
 - Preswylfa Neuadd y Brifysgol,
 - Neuadd Breswyl Llys Senghennydd,
- Cynhaliwyd archwiliadau o gyfleusterau parcio beiciau ar gampysau Parc Cathays a Pharc y Mynydd Bychan,
- Cyflwynwyd Cynllun positiveCycling, gan gynnig cynllun aberthu cyflog i staff brynu beiciau newydd. Hyd yn hyn, mae 185 aelod o staff wedi manteisio ar y buddiant hwn.

- Bid llwyddiannus am grant 'Cadw Caerdydd i Symud' i uwchraddio cynllun rhannu lifftiau Prifysgol Caerdydd i gynnwys 'Cycle-Budi' a 'Walk-Budi',
- Ail-lansio cynllun rhannu lifftiau Prifysgol Caerdydd yn PHEW 2012 ac yn Wythnos y Glas 2012, gan gynnwys rhoddion hyrwyddo am ddim i hybu cynlluniau 'Walk-Budi' a 'Cycle-Budi',
- Fideo-gynadledda Skype o ddesg i ddesg wedi ei ryddhau i Staff Cymorth TG Ysgolion (Hydref 2010),
- Lansio gwasanaeth negeseuon gwib 'Holi Llyfrgellydd' ym mis Medi 2010,
- Lansio gwasanaeth rhannu ffeiliau Quickr Teamplace ym mis Gorffennaf 2010,
- Mapiau cerdded yn canolbwyntio ar gampws y Brifysgol yn cael eu llunio a'u cyhoeddi ar wefan y Brifysgol. Ar gael ar-lein yn: <http://www.cardiff.ac.uk/sustainability/sustainableuniversity/sustainabletravel/walking/walkingmaps/walking-maps.html>
- Teithiau cerdded a llwybrau rhedeg (o bellteroedd amrywiol) o gwmpas y Campws wedi eu datblygu gan adran Chwaraeon Prifysgol Caerdydd ar gyfer staff a myfyrwyr i gyflwyno gweithgareddau corfforol i'w trefn ddyddiol arferol. Ar gael ar-lein yn <http://www.cardiff.ac.uk/sport/exercise/walkrun/index.html>
- Ychwanegwyd dolenni at Traveline Cymru (gwasanaeth cynllun teithio personol) ar wefan y Brifysgol,
- Mapiau Beicio Caerdydd a Mapiau/Taflenni Gwybodaeth Llwybr Bae Caerdydd ar gael ym Mhyrth y Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora ac yn nerbynfeydd Preswylfeydd.

4. TARGEDAU AC AMCANION

Fel y nodwyd yn barod uchod, nod cyffredinol Cynllun Teithio Prifysgol Caerdydd yw helpu i leihau Ôl Troed Carbon y Brifysgol ac annog teithio mwy cynaliadwy ac annog pobl i beidio â theithio drwy ddulliau llai cynaliadwy. Bydd Prifysgol Caerdydd yn cyflawni'r nod hwn drwy gychwyn camau mewn cymhariaeth â'r targedau amrywiol fel a ganlyn ac sydd wedi cael eu dadansoddi'n amcanion dilynol amrywiol. Mae'r targedau a'r amcanion yn cael eu datblygu mewn cynllun gweithredu.

- **Codi ymwybyddiaeth staff a myfyrwyr o effeithiau dewisiadau teithio a dewisiadau teithio amgen**
 - Darparu gwybodaeth gyfredol am deithio cynaliadwy i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr.
 - Rhoi cyhoeddusrwydd i argaeledd gwybodaeth am deithio cynaliadwy a digwyddiadau/mentrau teithio cynaliadwy.
- **Annog teithio egniol (e.e. cerdded a beicio)**
 - Adolygu darpariaeth parcio beiciau yn adeiladau'r Brifysgol.
 - Adnewyddu/datblygu menter Wythnos Feiciau'r Brifysgol fel rhan o'r Wythnos Feiciau Genedlaethol.
 - Datblygu menter Wythnos Cerdded i'r Gwaith yn y Brifysgol fel rhan o'r Mis Cerdded Cenedlaethol.
 - Trafod gostyngiadau i staff a myfyrwyr gyda siopau beicio/awyr agored lleol.
 - Adolygu darpariaeth cawodydd/cyfleusterau newid a loceri i'w defnyddio gan staff a myfyrwyr sy'n cerdded neu'n beicio.
 - Darparu sesiynau cynnal a chadw beiciau yn rheolaidd am ddim a Hyfforddiant Hyder wrth Feicio i staff a myfyrwyr.
 - Ystyried y dewisiadau sydd ar gael o ran cynlluniau llogi beiciau blynyddol a dyddiol ar gyfer staff a myfyrwyr.
 - Cysylltu â Chyngor Caerdydd ynghylch gwelliannau sydd eu hangen (y tu allan i gyfrifoldeb y Brifysgol) i annog teithio egniol.
 - Adolygu'r cynllun *positiveCycling*.
- **Annog defnyddio trafndiaeth gyhoeddus**
 - Edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno tocynnau teithio tymor â disgownt i staff a myfyrwyr.
 - Cysylltu â Chyngor Caerdydd ynghylch gwella gwasanaethau/seilwaith trafndiaeth gyhoeddus.

- **Lleihau teithiau gan unigolion ar eu pennau eu hunain mewn cerbydau**
 - Parhau i hyrwyddo cyfranogiad yng nghynllun rhannu lifftiau Caerdydd.
 - Adnewyddu/datblygu menter wythnos rhannu lifftiau yn y Brifysgol fel rhan o wythnos genedlaethol rhannu lifftiau.
 - Adolygu dichonoldeb Gwasanaeth Bws Gwennol pwrpasol ar gyfer y Brifysgol.
- **Datblygu a hyrwyddo arferion busnes a gweithio amgen sy'n lleihau teithio**
 - Parhau i hyrwyddo arferion busnes/gweithio amgen sydd ar gael.
 - Lleihau teithio diangen i ddod o hyd i weithfan gyfrifiadurol sydd ar gael.
 - Gwella gwasanaethau cydweithio rhithwir.
- **Lle bo'n ymarferol, annog defnyddio dewisiadau eraill yn lle hediadau a cheir ar gyfer teithiau busnes yn y Deyrnas Unedig**
 - Ymchwilio i argaeledd gwybodaeth i alluogi cyflwyno hierarchaeth o ddulliau teithio busnes. Byddai'r hierarchaeth hon yn nodi pa ddulliau o deithio mae Prifysgol Caerdydd yn eu hystyried yn dderbyniol ar gyfer mathau penodol o deithiau, gan gyfeirio at 'ôl troed carbon' pob dull.
 - Nodi/ymchwilio i ddulliau o drafnidiaeth a ddefnyddir gan ymwelwyr sy'n teithio i'r Brifysgol.
- **Adolygu'n feirniadol y cerbydau sy'n eiddo i Brifysgol Caerdydd er mwyn nodi cyfleoedd i leihau ein hól troed carbon**
 - Cynnal archwiliad o gerbydau presennol a'u defnydd.
 - Archwilio dewisiadau/mathau amgen o gerbydau lle bo'n berthnasol.
- **Adolygu a datblygu Cynllun Teithio Prifysgol Caerdydd**
 - Adolygu llwyddiant a monitro newidiadau mewn ymddygiad teithio.
 - Parhau i ddatblygu cysylltiadau â Chyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a sefydliadau Addysg Uwch/Addysg Bellach eraill yng Nghaerdydd i nodi meysydd ar gyfer cydweithredu posibl.

5. GWEITHREDU

5.1 Rôl a Chyfrifoldebau

Bydd y gwaith o reoli a gweinyddu'r Cynllun Teithio o ddydd i ddydd yn cael ei oruchwylio gan y Tîm Cyfleusterau (Adran Gwasanaethau'r Campws) a fydd yn adrodd i Grŵp Llywio Systemau Rheoli Amgylcheddol (EMS) y Brifysgol, sydd yn ei dro yn cysylltu â Phwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol sy'n eistedd o fewn strwythur llywodraethu cyffredinol y Brifysgol. Bydd Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yn cael diweddariadau rheolaidd ar weithgareddau a chynnydd.

5.2 Sut bydd y cynllun teithio yn cael ei gyfleu i Staff a Myfyrwyr

Bydd proffil y Cynllun Teithio yn cael ei gynnal drwy ddiweddariadau rheolaidd i staff a myfyrwyr ynghyd â gweithgareddau amrywiol yn ystod y flwyddyn.

Yn benodol, bydd y Cynllun Teithio yn cael cyhoeddusrwydd drwy:

- Cyfathrebu gyda staff a myfyrwyr drwy gylchlythyrau (e.e. Newyddion Caerdydd/Blas/Gair Rhydd),
- Darparu gwybodaeth ar dudalennau gwe'r Brifysgol a'r Hysbysfwrdd/Amgylchedd Gwaith Modern (MWE),
- Arddangos posteri gwybodaeth am deithio,
- Pecyn ymsefydlu/staff,
- Digwyddiadau (e.e. Wythnos Iechyd ac Amgylchedd Cadarnhaol).

6. MONITRO

Bydd adroddiadau blynyddol ar elfen Cynllun Gweithredu'r Cynllun Teithio yn cael eu darparu i Grŵp Llywio Systemau Rheoli Amgylcheddol (EMS) y Brifysgol a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, gan gymharu'r cyflawniadau gyda'r targedau.

Bydd arolygon cynhwysfawr yn cael eu cynnal ymysg staff a myfyrwyr yn achlysurol i fesur newidiadau mewn agweddau ac ymddygiadau o ran dewisiadau teithio.

6.1 Gweithio gyda Chyngor Caerdydd a chyrff perthnasol eraill

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â Sefydliadau Addysg Uwch/Addysg Bellach eraill, Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r Cynllun Teithio.

Yn benodol, lle mae gan y Brifysgol bresenoldeb ar safleoedd ysbyty, bydd y Brifysgol yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i fodloni gofynion cynllun teithio'r Bwrdd, a lle bo'n bosibl, gweithio gyda'i gilydd ar fentrau.